**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL** **EOC-02-02(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | 6 Mawrth 2002 | |
| Amser: | 9.30am | |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | | |
| Aelodau | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gwyr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Ymgynghorwyr i’r Pwyllgor | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Yn cyflwyno i’r Pwyllgor | Delyth Evans AC | Pwyllgor Diwylliant |
| | Teresa Rees | Comisiynydd Cymru, Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Yr Athro Eric Sunderland | Cadeirydd, Y Comisiwn Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol |
| Swyddogion | Lindsay Hollies | Uned Penodiadau Cyhoeddus |
| | Elisabeth Jones | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| | Hugh Rawlings | Y Comisiwn Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol i Gymru |
| | Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EOC-01-02(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Lewis a Mashuq Ally. Anfonodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymddiheuriadau am yr eitem ar fynediad i orsafoedd pleidleisio.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Byddai’r clerc yn cysylltu â’r aelodau i drafod y trefniadau ar gyfer ymweliad y pwyllgor â’r Awdurdod Cydraddoldeb yn Nulyn (**pwynt gweithredu**). Cytunodd y pwyllgor i ymestyn hyd yr Adolygiad Sipsiwn-Deithwyr, gyda’r bwriad o’i ddirwyn i ben yn ystod haf 2003.
- Ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Arglwydd Rooker, Gweinidog y Swyddfa Gartref dros Ddinasyddiaeth a Mewnfudo, o ran y defnydd o Ysbyty’r Sili.

1.3 Cytunodd y pwyllgor ar ei ymateb i’r Cabinet ar Gydnabyddiaeth Penodeion Cyhoeddus fel y’i cynigiwyd gan y Cadeirydd. Ceir copi o lythyr y Cadeirydd yn atodiad 1.

1.4 Hysbysodd David Melding, Cadeirydd y Gweithgor ar Gyflog Cyfartal, y pwyllgor y byddai’r ymgyrch cyflog cyfartal yn cael ei lansio ar 7 Mawrth 2002 ac y cyflwynwyd cynnig gan y Cynulliad a dderbyniodd cefnogaeth pob plaid. Roedd yr ymgyrch yn dangos gwerth cytundebau partneriaeth rhwng y Cynulliad a sefydliadau allanol. Hysbysodd Kate Bennett y pwyllgor i’r ymgyrch dderbyn cyhoeddusrwydd da ac y byddai Teresa Rees yn sôn am y cynnydd yng Nghymru yng nghynhadledd y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) ar 8 Mawrth 2002.

1.5 Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor y penodwyd Neil Wooding fel Comisiynydd yr EOC yng Nghymru o fis Mehefin 2002. Croesawodd y pwyllgor y penodiad.

**Eitem 2: Adolygiad o’r Iaith Gymraeg**

2.1 Nododd Delyth Evans i’r Pwyllgor Diwylliant dderbyn swm sylweddol o dystiolaeth ar draws ystod eang o feysydd pwnc gan gynnwys cymunedau, datblygu economaidd, tai a chynllunio a’i fod wrthi ar hyn o bryd yn llunio ei argymhellion. Byddai gan y Pwyllgor Diwylliant ddiddordeb ym marn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am rôl yr iaith Gymraeg.

2.2 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Dylai pobl y mae Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt allu cael mynediad i wasanaethau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg lle bynnag y bônt yn byw yng Nghymru. Roedd yn bwysig i wasanaethau, ac yn benodol gwasanaethau iechyd, gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i’r man cyswllt cychwynnol. Ni fyddai darparu gwasanaethau yn Gymraeg o reidrwydd yn golygu cost ychwanegol pe defnyddiwyd y staff presennol yn fwy effeithiol. Dylai’r sector preifat hefyd sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.
- Dylai addysg Gymraeg fod ar gael i rieni mewn ardaloedd nad Cymraeg oedd y brif iaith. Dylid rhoi’r cyfle i rieni ddewis ym mha iaith y byddai eu plant yn derbyn eu haddysg a dylid annog

datblygiad ysgolion dwyieithog. Ni ddylai ansawdd yr addysg a ddarperir fod yn ddibynnol ar yr iaith. Dylid darparu gwasanaethau anghenion addysgol arbennig hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylid darparu gwasanaethau drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol eraill hefyd.
- Nid adolygiad y Pwyllgor Diwylliant fyddai diwedd y broses o archwilio’r iaith Gymraeg. Dylai’r adolygiad roi sylw priodol i gyfle cyfartal gan hysbysu pobl am eu hawl sylfaenol i ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid ystyried rhinweddau penodi cynrychiolydd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel gwestai sefydlog i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried yr awgrym hwn ar ôl i’r adolygiad gael ei gwblhau.
- Roedd hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog yn bwysig er mwyn sicrhau y gallai’r iaith Gymraeg ffynnu heb ddod yn elitaidd.
- Er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, dylai byrddau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) fod yn gynrychioliadol o’r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Felly dylid cynrychioli siaradwyr Cymraeg ar fyrddau a dylai gweithdrefnau penodiadau cyhoeddus ystyried hyn. Gofynnodd y Cadeirydd am nodyn ar nifer aelodau byrddau ASPBs sy’n siarad Cymraeg wedi’i fynegi yn nhermau’r rhanbarth a wasanaethir gan yr ASPB (**pwynt gweithredu**).
- Byddai materion yn ymwneud â thegwch a chydraddoldeb yn hanfodol i gasgliadau’r adolygiad. Gofynnodd y pwyllgor am gyfle i gyflwyno sylwadau ar adroddiad drafft y Pwyllgor Diwylliant (**pwynt gweithredu**).

**Eitem 3: Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus**

Papur: EOC-02-02(p2)

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y Cod Ymarfer diwygiedig ar Benodiadau Cyhoeddus a gofynnodd am sylwadau’r pwyllgor ar y ddogfen ddrafft.

3.2 Cyflwynodd y pwyllgor y sylwadau canlynol:

- Dylai’r cod sicrhau bod aseswyr annibynnol yn destun rhaglen dethol a hyfforddi drwyadl er mwyn sicrhau safon uchel o wybodaeth a pherfformiad. Dylid hysbysu aseswyr annibynnol am flaenoriaethau cydraddoldeb y Cynulliad fel rhan o’r broses hyfforddi hon. Nododd y pwyllgor ei bod yn orfodol i aseswyr sydd newydd eu penodi ymgymryd â hyfforddiant sefydlu ac y byddai’r broses hon yn cael ei hategu gan hyfforddiant penodol gan y Cynulliad a fyddai’n cynnwys gwybodaeth am flaenoriaethau cydraddoldeb y Cynulliad.
- Dylai hyfforddiant i aseswyr annibynnol ac aelodau sy’n ymwneud â phenodi barhau y tu hwnt i’r cyfnod sefydlu a chael ei adnewyddu unwaith y flwyddyn.
- Roedd yn bwysig i’r broses o benodi aseswyr annibynnol fod yn agored ac yn dryloyw a byddai adborth priodol i ymgeiswyr aflwyddiannus yn hanfodol yn hyn o beth.
- Dylid recriwtio cynrychiolaeth amrywiol o aseswyr annibynnol.
- Dylid diwygio’r cod i’w wneud yn fwy penodol i’r Cynulliad.

3.3 Cytunodd y Cadeirydd y byddai’n dosbarthu’r cod diwygiedig i’r aelodau i gael adborth arno cyn ei

gyflwyno ger bron y Cabinet (**pwynt gweithredu**). Cytunodd y pwyllgor i ystyried strategaeth hyfforddi'r Cynulliad ar gyfer ymgynghorwyr annibynnol yn ystod y cyfarfod nesaf (**pwynt gweithredu**).

**Eitem 4: Cynllun Gweithredu Amrywiaeth**

Papur: EOC-02-02(p.3)

4.1 Cyflwynodd Teresa Rees y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth drafft. Prif ddiben y cynllun gweithredu oedd annog mwy o amrywiaeth ymhlith penodeion cyhoeddus. Er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a chynorthwyo pobl i weithio'n fwy effeithiol, byddai angen newid diwylliant cyrff cyhoeddus. Roedd y cynllun gweithredu yn rhan o ymdrech i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithiol yng Nghymru drwy foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Mae angen cael gwared ar y rhwystrau seicolegol a chorfforol, a oedd yn atal pobl anabl rhag gwneud cais am benodiadau cyhoeddus, drwy ymgyrch broactif i annog pobl i gyflwyno eu hunain.
- Roedd y cynllun gweithredu yn strategaeth hir dymor a oedd yn defnyddio'r Rhyngrwyd i ategu prosesau gwybodaeth mwy traddodiadol.
- Byddai'n bwysig cynnwys partneriaid o fewn y sector gwirfoddol a'r sector busnes wrth ystyried y cynllun gweithredu. Nododd y Cadeirydd y byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno ar gyfer un o gyfarfodydd cyngor y sector gwirfoddol yn y dyfodol.
- Dylid recriwtio pobl o amrywiol gefndiroedd a phrofiadau ac ni ddylai oedran fod yn rhwystr i gyfranogiad. Dylid addysgu pobl ifanc yn arbennig a'u hannog i ganfod sut mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu.
- Er mwyn darbwyllo'r sector preifat a phobl hunan gyflogedig i gyflwyno eu hunain ar gyfer swyddi gwasanaeth cyhoeddus, byddai angen darparu cymorth realistig wrth reoli ymrwymiadau gwaith.
- Dylai'r cynllun gweithredu anelu at ddatblygu ymgeiswyr presennol yn ogystal â nodi ymgeiswyr newydd.
- Byddai gwaith allgyrch y Cynulliad yn bwysig wrth gynorthwyo a datblygu ymgeiswyr o bob sector o'r gymuned a gellid ei ddefnyddio i ledaenu ethos y gwasanaeth cyhoeddus i gymdeithas.
- Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys peilot cysgodi gwaith, a oedd yn canolbwyntio ar ehangu amrywiaeth.
- Roedd cynllun manylach wrthi'n cael ei baratoi, ar ôl i ddata gwaelodlin ddod i'r amlwg, a fyddai'n cynnwys gwybodaeth am derfynau amser a thargedau. Byddai angen proses werthuso wedi'i hamseru ar y cynllun manwl.

4.3 Cytunodd y pwyllgor ar y canlynol:

- Dylid ailenwi'r cynllun gweithredu yn 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb mewn Penodiadau Cyhoeddus'.
- Yn ei gyfarfod nesaf byddai'r pwyllgor yn ystyried y trefniadau ar gyfer rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus (**pwynt gweithredu**).
- Byddai papur yn amlinellu'r materion a godwyd yn y cyfarfod yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yn y cyngor partneriaeth. Wedyn gallai'r pwyllgor drafod unrhyw ymateb gan y cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol (**pwynt gweithredu**).
- Byddai'r Fonesig Rennie Fritchie, y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, yn cael gwahoddiad i fynychu un o gyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol er mwyn trafod cysgodi gwaith a materion eraill (**pwynt gweithredu**).

**Eitem 5: Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio**

Papurau: 'Polls Apart 3' ac EOC-02-02(p.4)

5.1 Cyflwynodd Will Bee yr adroddiad 'Polls Apart 3' a'r papur i'r pwyllgor. Nododd yr adroddiad nad oedd 69% o'r gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn hygyrch i bobl anabl. O ganlyniad, roedd mwyafrif helaeth o bobl anabl yn methu â chymryd rhan lawn yn y broses ddemocrataidd. Roedd y wybodaeth a oedd yn benodol i Gymru yn brin, ond roedd y ffigurau a oedd ar gael yn cynrychioli'r darlun cenedlaethol yn fras ac yn dangos y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl. Roedd nifer y lleoliadau a oedd yn addas i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio mewn rhai ardaloedd gwledig yn gyfyngedig, ond roedd mwy o ddewis mewn ardaloedd trefol. Drwy sicrhau blaen gynllunio digonol gellid ymdrin â'r rhan fwyaf o'r problemau a nodwyd yn 'Polls Apart 3' a dylai hynny ddechrau yn awr mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2003.

5.2 Nododd yr Athro Eric Sunderland fod y Comisiwn Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol wedi cyfarfod â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a'u bod wedi nodi bod llawer o grwpiau wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd gan drefniadau llywodraeth leol. Cydnabu'r Comisiwn hefyd bwysigrwydd rhoi cyfle i bawb gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Byddai'r Comisiwn yn cynhyrchu adroddiad ar drefniadau etholiadol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2002. Byddai'r adroddiad yn cydnabod y dylid rhoi'r cyfle i bawb allu pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, gyda systemau pleidleisio dros y Rhyngrwyd a thrwy'r post yn ategu'r broses hon. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Sunderland dynnu'r adroddiad at sylw'r pwyllgor pe teimlai y byddai o ddiddordeb iddynt.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Er mwyn trechu problemau mynediad, dylai awdurdodau lleol ystyried defnyddio dewis mwy arloesol o adeiladau, fel archfarchnadoedd. Gallai datblygiad technoleg gwybodaeth hefyd ategu dulliau pleidleisio traddodiadol.
- Roedd yn bwysig sicrhau cydbwysedd, mewn ardaloedd gwledig yn benodol, rhwng gwell mynediad corfforol i adeiladau a sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn agos at bleidleiswyr lleol. Ni ddylid defnyddio problemau mynediad ac argaeledd systemau pleidleisio drwy'r post fel esgus

dros gau gorsafoedd pleidleisio.

- Byddai'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn sicrhau bod mwy o adeiladau cyhoeddus yn hygyrch erbyn 2004 pan ddaw'r dyletswydd i wneud addasiadau ffisegol rhesymol i rym, er nad oedd y Ddeddf yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.
- Dylai swyddogion etholiadau a chlercod pleidleisio fod yn fwy ymwybodol o anghenion pobl anabl fel rhan o raglen hyfforddiant.
- Dylid cynllunio mynediad i orsafoedd pleidleisio yn gywir cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2003. Gellid parhau â'r blaen gynllunio hwn yn ystod cyfnodau etholiadau lleol a chyffredinol. Dylid sicrhau hefyd bod maniffestos y pleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ar gael mewn fformatau hygyrch.
- Byddai'r broses o ddyrannu arian i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb yn dibynnu ar newid agwedd tuag at broblemau cyfredol.

5.4 Cytunwyd ar y canlynol:

- Byddai Glyn Mathias, cynrychiolydd Cymru y Comisiwn Etholiadol, a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod nesaf (**pwynt gweithredu**).
- Byddai'r DRC yn trefnu i weithio gyda CLlLC i ddatblygu rhestr wirio i gynorthwyo awdurdodau lleol ar yr arfer gorau o ran mynediad i orsafoedd pleidleisio. Byddai'r rhestr wirio yn cael ei thrafod yn un o gyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol (**pwynt gweithredu**).
- Byddai'r DRC, gydag Anabledd Cymru, yn ystyried y posibilrwydd o fonitro hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2003 (**pwynt gweithredu**).
- Byddai papur ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer yr etholiadau yn 2003 yn cael ei gomisiynu ar gyfer y cyfarfod nesaf (**pwynt gweithredu**).

**Eitem 6: Cyfarwyddebau Cyflogaeth a Hil**

Papur: EOC-02-02(p.5)

6.1 Cododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol wrth drafod y papur:

- Byddai angen ystyried effaith y cyfarwyddebau ar ddeddfwriaeth bresennol y DU.
- Byddai'n bwysig cynnal trafodaethau gyda'r rheini y byddai'r gyfarwyddeb yn effeithio arnynt. Dylai ymateb y pwyllgor fod ar gael i'w ystyried gan sefydliadau eraill yng Nghymru.

6.2 Cytunodd y pwyllgor ar y canlynol:

- Pe derbyniwyd y cynigion ar gyfer sefydlu'r Tasglu Cydraddoldeb, dylai'r Cynulliad geisio cael ei gynrychioli ar y corff.
- Cytunodd y pwyllgor y dylai ei ymateb gynnwys cydnabyddiaeth y gallai problemau godi o ran cystadleuaeth rhwng hawliau dilys cyfwerth. Gofynnodd y Cadeirydd i ymateb y pwyllgor gael ei

ddiwygio i gynnwys y gydnabyddiaeth hon a'i ddosbarthu i'r Aelodau ei ystyried erbyn 8 Mawrth 2002 (**pwynt gweithredu**).

6.3 Cytunodd y Cadeirydd i ddosbarthu unrhyw wybodaeth y byddai'n ei derbyn gan yr EOC ar agweddau cyfeiriadedd rhywiol y cyfarwyddebau i'r aelodau (**pwynt gweithredu**).

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: EOC-01-02(min)

7.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. Cytunodd y Cadeirydd i ailddosbarthu llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn cwmpasu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cyfarfod ar 30 Ionawr 2002 ar Gynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie. Gofynnodd y pwyllgor hefyd am ddiweddariad byr ar y cynnydd o ran trafodaethau gyda'r staff ar gyfer y cyfarfod nesaf (**pwynt gweithredu**).

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am.